**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Diogelu Pobl a Threchu Tlodi

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 27 Chwefror 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | R Fogarty | A J Jeffery |
| H Lawson | J E Pritchard | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lee Cambule | Rheolwr Gwasanaeth Trechu Tlodi |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Deborah Reed | Principal Officer (Resources) |
| Jo Veck | Uwch-gyfreithiwr |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| L S Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |
| A Pugh | Aelod y Cabinet dros Les |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L V Walton

---

## 32 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd R A Fogarty gysylltiad personol â Chofnod Rhif 35 "Polisi Adennill Dyledion Personol Corfforaethol Drafft'.

## 33 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Diogelu Pobl a Threchu Tlodi a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2023 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 34 Rhaglen y Gweithlu'r Gyfarwyddiaeth - Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rhoddodd Deborah Reed, Prif Swyddog (Adnoddau) ac Arweinydd Gweithlu ar gyfer Rhaglen Gweithlu'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyniad

Powerpoint ar y Rhaglen Gweithlu sefydledig o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.

Amlinellodd y cyflwyniad y canlynol:

- Strwythur y rhaglen a'r prosiectau amrywiol a oedd yn gysylltiedig â rhaglen y gweithlu;
- Y gwaith a wnaed o fewn rhaglen y Gyfarwyddiaeth o ran y canlynol:
  - Recriwtio a Chadw;
  - Rhaglen Prentisiaethau;
  - Data'r gweithlu;
  - Absenoldeb;
  - Hyfforddiant
- Prosiectau Ychwanegol:
  - Strategaeth y Gweithlu gorfforaethol;
  - Oracle Fusion;
  - Caffael staff asiantaeth
- Y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd:
  - Lles;
  - Datblygu Staff;
  - Addewid Cymru Gyfan - Memorandwm o Gydweithredu
- Y Gwasanaethau i Oedolion:
  - Lles;
  - Datblygu Staff;
  - Strwythurau
- Datblygiadau yn y dyfodol:
  - Trawma Eilaidd/Dirprwyol - ataliaeth a chefnogaeth ar draws y gyfarwyddiaeth
  - Cynllun Gwobrau a Chydnabyddiaeth y Gwasanaethau i Oedolion
  - Llwybr Cynnydd y Gwasanaethau i Oedolion
  - Y Gymraeg - sicrhau ei bod wedi'i chynnwys yn holl ddatblygiadau'r rhaglen
  - Cyflwyno'r Addewid Cymru Gyfan yn rhanbarthol ar draws y Gwasanaethau i Oedolion

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau amrywiol, ac atebodd y swyddog yn briodol iddynt.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog am y cyflwyniad llawn gwybodaeth a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at dderbyn diweddariadau pellach.

## 35 Polisi Adennill Dyledion Personol Corfforaethol Drafft.

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaeth Trechu Tlodi adroddiad i ddatblygu a mabwysiadu polisi sy'n ymgorffori ymagwedd gorfforaethol at reoli adennill dyledion personol.

**Penderfynwyd** bod y Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Diogelu Pobl a Threchu Tlodi yn cymeradwyo bod y Polisi Adennill Dyledion  Personol Corfforaethol Drafft yn symud ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

## 36 Polisi Gwirfoddoli/ Datblygu Strategaeth Cyngor Abertawe (Er Gwybodaeth).

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Trechu Tlodi adroddiad “er gwybodaeth” i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am y gwaith a wnaed hyd yma o ran llunio Polisi/Strategaeth Gwirfoddoli Cyngor Abertawe.

## 37 Cynllun Gwaith 2022-2023.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2022-2023.

**Penderfynwyd** ychwanegu’r eitem ganlynol at agenda’r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 27 Mawrth 2023:

- Datblygu Canllaw Arfer Gorau ar gyfer Cydlynu Ardaloedd Lleol (diweddariad).

Daeth y cyfarfod I ben am 4.44 pm

**Cadeirydd**